# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE**

**Ffôn:Tel: 07896964120** **cyngorybala@outlook.com**

***Y Maer:*** **Eifion Roberts** ***Mayor***

***Ar gyfer cysylltu â'r Maer a Chynghorwyr unigol, defnyddier cynghoryddbala@outlook.com***

## Gwysir Cynghorwyr i fynychu cyfarfod o Gyngor Tref Y Bala

## Nos Iau, 1/6/23 am 7.00pm o'r gloch

## Canolfan Henblas

*Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor; gellir derbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – cysyllter gyda'r Clerc 3 diwrnod cyn y cyfarfod.*

1. **Croeso,** sylwadau'r Maer, derbyn ymddiheuriadau
2. **Cyflwyniad:** Gwenno Jones, Swyddog Ymgysylltu'n Gymunedol Parc Cenedlaethol Eryri, Etta Trumper ac Angela Jones Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri
3. **Buddiant:** Derbyn datganiadau buddiant
4. **Cofnodion:** Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/5/23
5. **Materion y Clerc:**
    i. Biniau baw cŵn ar lwybr y llyn
    ii. Byd Mary Jones: ymateb i'r sylwadau am gyflwr y panel gwybodaeth
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyn Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd.
7. **Ardal Ni:** Derbyn adroddiad o gyfarfod 25/5/23
8. **Siarter 1324:** Ymateb y cyhoedd a'r camau nesaf
9. **Strategaeth Cyfathrebu:** cyflwyniad Clare Mackintosh
10. **Is-bwyllgorau:** Derbyn adroddiadau
    i. Nadolig
    ii. Gwarchod y Cyhoedd mewn argyfwng

iii. Asedau
iv. Gwella adnoddau i drigolion
v. Bioamrywiaeth
vi. Cyllid

*11.* **Materion Cynllunio**: yn cynnwys

i. **NP5/53/37K** Lleoli fan arlwyo o fewn yr iard gefn - Tir i gefn Yr Afr, Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AF

ii. **NP5/53/LB301P** Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer trosi hen ysgubor a chyn siop yn llety â gwasanaeth fel rhan o Westy Plas yn Dre, a throsi bloc toiledau yn uned storio ar gyfer sbwriel, ailgylchu a storfa gyffredinol gan gynnwys gosod ffenestri to yn y blaen a'r to cefn

iii. **NP5/53/LB301N** Trosi hen sgubor a chyn siop yn llety â gwasanaeth fel rhan o Westy Plas yn Dre, a throsi bloc toiledau yn uned storio ar gyfer sbwriel, ailgylchu a storio cyffredinol gan gynnwys gosod ffenestri to yn y blaen a'r to cefn Plas yn Dre, Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7LU

iv. **NP5/53/598C** Cais Amlinellol, gyda'r materion i gyd wedi'u cadw'n ôl, i adeiladu un tŷ (Ail-gyflwyniad yn dilyn gwrthod cais cynllunio NP5/53/598B) Tir ger Ffynnon Beuno, Y Bala.

v. **NP5/53/LB70H** Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau mewnol gan gynnwys creu bar, tynnu waliau mewnol ac addasiadau i osodiad, tynnu ramp modern. White Lion Royal Hotel, Stryd Fawr, Y Bala, LL23 7AE

**12.Materion Cyllid:**

**i.** Ystyried Adroddiad yr Archwilydd Mewnol *e-bostiwyd ac ar y wefan*

**ii.** Ystyried y Ffurflen Flynyddol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Nodiadau Datgelu Ychwanegol *e-bostiwyd ac ar y wefan*

**iii.** Ystyried cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn 2021-22 i sylw'r Archwilydd Allanol

**iv.** Adroddiad Archwilydd Allanol 2021-22 – ymateb yr Archwilydd i bryderon y Cyngor

**v.** Ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf

**vi.** Derbyn gwybodaeth am Gronfa'r Maer

**vii.** Ystyried derbyniadau'r mis a'r anfonebau i'w talu

  **i.** Anfoneb posteri Siarter 1324 (talwyd gan y Clerc)

**13. Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

**i.** Un Llais Cymru: Holiadur Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Ddyfodol erbyn 3/7/23
**ii.** Rheolau Sefydlog – drafft i'w ystyried ochr yn ochr a'r un presennol
iii. Parc Cenedlaethol Eryri : derbyn gwybodaeth am gronfa Cymunedau Eryri (dyddiad cau 30/6/23)

iv. Parc Cenedlaethol Eryri: Gweminar ar y Polisi Cynllunio 8/6/23 7.30 (Zoom)
v. Dwr Cymru: gwahoddiad i sesiwn briffio ar y gwaith ar Gronfa Tryweryn ddydd Llun, Mehefin 5ed am 10am

**14. Cwmni Pum Plwy Penllyn:** derbyn adroddiad y cynrychiolwyr, yn cynnwys ymateb i fater camera cylch cyfyng

15. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref (***mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Clerc)*

*Lis Paw* (Clerc)